



Grant dechrau busnes carbon sero net – canllawiau cymhwysedd

Mae'r cyllid ar gael ledled Cymru i fudiadau gwirfoddol sy'n gorfforedig. Gall mudiadau anghorfforedig ymgeisio, ond bydd angen iddynt ddod yn gorfforedig cyn y bydd unrhyw gyllid yn cael ei ryddhau.

I fod yn gymwys, mae'n rhaid i chi:

- Fod yn gorff corfforedig yng Nghymru sy'n gweithredu er budd pobl yng Nghymru
- Cael dogfennau llywodraethu sy'n cynnwys rheolaeth cloi asedau a dosbarthu difidend priodol
- Gallu dangos trosolwg ac annibyniaeth briodol gan Fwrdd cymwys â chworwm sydd ag o leiaf tri chyfarwyddwr neu ymddiriedolwr
- Cael safonau polisi neu achrediadau lleiaf priodol ar waith (e.e. diogelu)
- Cael un o'r ffurfiau cyfreithiol canlynol:
 - Cwmni cyfyngedig drwy warant
 - Cwmni Buddiannau Cymunedol (cyfyngedig trwy gyfranddaliadau neu warant)
 - Cymdeithasau Budd Cymunedol neu strwythur cydweithredol tebyg
 - Mudiad Corfforedig Elusennol
 - Cwmni cyfyngedig trwy warant lle y mae'n is-gwmni ar ffurf gyfreithiol gymwys arall

- Cael cynllun busnes cadarn, ond heb ffrydiau refeniw profedig eto. Er enghraifft:
 - **Cyn dechrau / heb fasnachu hyd yma** – nid ydych chi wedi dechrau gwerthu nwyddau na gwasanaethau eto
 - **Rhywfaint o weithgarwch gwerthu ‘arbrofol’** – rydych chi wedi profi’r nwyddau neu’r gwasanaethau rydych chi’n bwriadu eu cynnig gyda chwsmeriaid sy’n talu er mwyn cael adborth a datblygu eich dealltwriaeth o’r farchnad (gallai hyn fod o fewn carfan gyfyngedig o gwsmeriaid, ardal ddaearyddol gyfyngedig ac ati)
 - **Ychydig o werthiannau lefel isel** – rydych chi wrthi’n gwerthu eich nwyddau neu’ch gwasanaethau i’r farchnad, ond ar lefel gyfyngedig

ASESIAD

Mae hwn yn gynllun peilot gyda chronfa grant gychwynnol o £150,000 i gefnogi 12 o fentrau cymdeithasol. Disgwylir y bydd galw eithaf uchel am y grant, a bydd yn cael ei ddyrannu drwy ddetholiad cystadleuol.

Bydd yr asesiad yn cael ei wneud yn erbyn y meini prawf canlynol:

Llywodraethu

- Strwythurau cyfreithiol cymwys (gweler uchod)
- Annibyniaeth i wneud penderfyniadau, gan gynnwys o leiaf tri chyfarwyddwr
- Pobl – mynediad at sgiliau a phrofiad i wneud y busnes yn llwyddiannus

Cynllun busnes

- Tystiolaeth o uchelgais i dyfu
- Cynnig busnes clir a chredadwy
- Tystiolaeth o’r angen am waith pellach i wella’r cysyniad/galw

Effaith gymdeithasol

- Beth fydd yn fesur o lwyddiant?
- Ymrwymiad i fesur a chyflawni effaith gymdeithasol ac amgylcheddol

Canlyniad y cyllid

- Eglurder o ran sut bydd yn cael ei wario
- Beth fydd yn cael ei gyflawni o ganlyniad i'r gwariant?
- A oes angen cyllid arall i 'lansio' ac a yw wedi'i sicrhau?

Bydd yr ail gam yn arwain at y detholiad terfynol, gan sicrhau bod y garfan yn gynrychiolaeth briodol o ran daearyddiaeth, amrywiaeth a'r sector yn ogystal â chynnig cyfleoedd i leihau allyriadau carbon.

CYMORTH NEU GYLLID YCHWANEGOL

- Gallech ddewis cael cymorth busnes ychwanegol drwy gynlluniau sydd eisoes yn bodoli fel [Busnes Cymdeithasol Cymru](#) neu ategu'r cyllid o ffynonellau eraill.
- Nid oes unrhyw ofynion cyllid cyfatebol penodol na chyfyngiadau ar ddefnyddio'r cymorth fel cyllid cyfatebol gyda chyllidwyr eraill (yn unol â chanllawiau cyllidwyr eraill). Daw'r cyllid hwn trwy law Llywodraeth Cymru, felly daw o ffynhonnell gyhoeddus.

COFRESTRU AR MAP

Er mwyn cyflwyno cais am gyllid, bydd angen i chi gofrestru gyda [Phorth Ymgeisio Amlbwrpas CGGC \(MAP\)](#). Os ydych wedi cofrestru gyda MAP o'r blaen, gallwch fewngofnodi drwy roi eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair ar y sgrin gartref.

Gall sefydliadau gofrestru drwy ymweld â'r wefan map.wcva.cymru.

CYSYLLTU Â NI

Cyllidir y grant dechrau busnes carbon sero net gan Lywodraeth Cymru a'i reoli gan y tîm [Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru](#) yn CGGC. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost at sic@wcva.cymru.